Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

# Cylchlythyr Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)

***EBRILL 2025***

## Manylion Cyswllt yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)

Yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)   Ffôn 0141 726 2397  Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Bydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cau ar 16 Ionawr 2026.  Bydd IBCA wedyn yn gyfrifol am daliadau parhaus a chymorth i'r holl fuddiolwyr presennol.

## Costau Ynni

Yn Nghynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru rydym yn deall y gall costau byw cynyddol effeithio ar ein buddiolwyr. O ganlyniad i gyflyrau iechyd parhaus, rydym yn cydnabod y gall effeithio ar rai yn fwy nag ar eraill.

Rydym am eich atgoffa bod cymorth ar gael, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar eich darparwr ynni a'ch cyflenwr dŵr presennol. Os oes angen help arnoch i gael mynediad at y cymorth hwn, cysylltwch â'ch darparwr.

Mae'r Tîm Hawliau Lles hefyd ar gael i drafod eich amgylchiadau personol, ac ymchwilio i ba gymorth a allai fod ar gael i chi.  Cysylltwch â ni ar 02921 500900 neu wibss@wales.nhs.uk.

## CYSYLLTU Â NI

Cysylltwch â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ar **02921 500900** neu anfonwch e-bost at **wibss@wales.nhs.uk**

Os na chaiff eich galwad ei hateb, gadewch neges gan gynnwys eich enw a'ch rhif cyswllt, ac fe wnawn ni eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer yr Adran Seicoleg a Llesiant, anfonwch e-bost at: **wibss.wellbeingservice@wales.nhs.uk** .

**Cyswllt Diweddar**

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.
Os oes gennych amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr sy'n gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02921 500900**.

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

## Learn My Way

Mae Learn My Way, yn blatfform ar-lein rhad ac am ddim sy'n helpu pobl i ddysgu sgiliau digidol sylfaenol a magu hyder wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Darperir hwn gan elusen Good Things Foundation a gall fod yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n dymuno dysgu rhywfaint o sgil sylfaenol wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Mae hefyd yn edrych ar gadw'n ddiogel ar-lein, sy'n bwysig iawn ac yn arwain at y maes nesaf, sef diogelu'ch arian.

## Diogelu'ch Arian

Rydym wedi crybwyll hyn o'r blaen, ond gan fod y cynllun iawndal yn dechrau gwneud taliadau, rydym am eich atgoffa i fod yn ymwybodol o dwyllwyr a sgamwyr, ac i fod yn ofalus wrth roi benthyg arian i unrhyw un.

Mae Take Five yn ymgyrch genedlaethol sy'n cynnig cyngor syml a diduedd i helpu pawb i amddiffyn eu hunain rhag twyll ariannol www.takefive-stopfraud.org.uk.

## Cymorth Hawliau Lles

Mae'r tîm Hawliau Lles yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol ac ymroddedig. Gallwn eich helpu gyda nifer o faterion, gan gynnwys materion budd-daliadau, cynyddu incwm, rheoli arian, eiriolaeth a chymorth cyffredinol. Mae'r gwasanaeth ar gael i chi ac aelodau o'ch teulu.

Gellir cynnal apwyntiadau drwy ymweliadau cartref, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy apwyntiadau ar-lein (Teams) Gallwch gysylltu â'r tîm ar y rhif uchod.

## Y Tîm Seicoleg a Lles

Mae Gwasanaeth Seicoleg a Lles Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn parhau i gefnogi aelodau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a'u teuluoedd estynedig ac mae'r gwasanaeth yn dal i allu derbyn atgyfeiriadau newydd.